Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# TALIADAU UNIONGYRCHOL

## Cyflwyniad i Daliadau Uniongyrchol

**Canllaw i Daliadau Uniongyrchol**
Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i chi a chyflwyniad i Daliadau Uniongyrchol. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol lleol, gweler y manylion cyswllt isod.

**Beth yw taliadau uniongyrchol?**
Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu Taliadau Uniongyrchol i unigolyn yn dilyn asesiad a ble canfuwyd bod anghenion penodol, cymwys y cytunir arnynt a chanlyniadau i'w cyflawni. Mae Taliadau Uniongyrchol yn ddewis arall yn lle gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn symiau ariannol sy'n cael eu talu i unigolion, neu eu cynrychiolydd, i'w galluogi i fodloni canlyniadau gofal a chymorth cymwys a nodwyd ac y cytunwyd arnynt. Nid yw Taliadau Uniongyrchol yn fath o incwm neu fudd-dal yr ydych chi'n gwneud cais amdano.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn eich galluogi i reoli pwy, pryd a sut y darperir y cymorth sydd ei angen arnoch yn eich bywyd bob dydd. Gallant wella'r dewis, y rheolaeth ac annibyniaeth i bobl sydd am rheoli'r gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt.

**Cymhwysedd i dderbyn Taliadau Uniongyrchol**
Mae'n rhaid eich bod wedi cael asesiad i drafod a nodi eich cryfderau, rhwydweithiau, ac unrhyw gefnogaeth sydd ar gael. Byddwch chi a'r ymarferydd gofal cymdeithasol yn nodi ble y gallech fod angen cymorth ychwanegol a lle rydych yn gymwys i gael cymorth gan eich Awdurdod Lleol.

**Beth yw manteision Taliad Uniongyrchol?**
Mae defnyddio Taliadau Uniongyrchol yn benderfyniad personol, a bydd angen i chi feddwl am bopeth dan sylw cyn cytuno i'w derbyn. Gall Taliadau Uniongyrchol eich galluogi i reoli eich gofal a'ch cymorth a rhoi'r hyblygrwydd i chi gynnal eich annibyniaeth mewn ffordd sy'n addas i chi a'ch ffordd o fyw.

**Pa gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i mi?**
Mae gan bob Awdurdod Lleol Wasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol i rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i'ch rhoi ar ben ffordd, gweinyddu a sefydlu Taliadau Uniongyrchol os penderfynwch fwrw ymlaen. Byddant yn eich cefnogi i fod yn hyderus wrth weinyddu eich Taliad Uniongyrchol. Fodd bynnag, os penderfynwch nad yw Taliadau Uniongyrchol yn addas i chi, mae hynny'n iawn hefyd. Gallwch dderbyn gofal a chymorth a drefnir yn uniongyrchol gan eich awdurdod lleol.

**Sut mae'r arian yn cael ei dalu i mi?**
Cyfrifir swm wythnosol o arian sy'n ddigon i dalu am y gofal a'r cymorth a nodwyd yn flaenorol ac y cytunwyd yn eich cynllun gofal a chymorth.

Efallai y gofynnir i chi agor cyfrif banc (ar wahân i'ch cyfrif personol) i dderbyn arian. Os na allwch wneud hyn am ba reswm bynnag, gallwch gael cymorth i dderbyn taliadau mewn ffyrdd eraill, ond byddwch dal i reoli eich gofal a'ch cefnogaeth.

**Faint o arian byddaf yn ei gael?**
Mae hyn yn dibynnu ar sut y darperir gofal a chymorth. Er enghraifft, os ydych yn cyflogi cynorthwyydd personol



(Gweler y canllaw Cyflogi Cynorthwywyr Personol) telir yr holl gostau sydd ynghlwm a bod yn gyflogwr cyfreithiol. Er enghraifft, tâl gwyliau a thâl salwch, cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr, costau yswiriant atebolrwydd a'r gyflogres. Fel arall, darperir digon i brynu gwasanaeth cyfreithiol a phriodol gan ddarparwr fel asiantaeth gofal.

**A fydd yn rhaid i mi dalu tuag at gost y Taliad Uniongyrchol?**

Yn wahanol i'r GIG, 'nid' yw gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion `yn rhad ac am ddim adeg y pwynt cyswllt'. Efallai y gofynnir i chi gyfrannu tuag at gost eich gofal a'ch cymorth. Bydd timau Asesu Ariannol yr Awdurdodau Lleol yn ystyried eich gallu i gyfrannu at unrhyw ofal a chymorth sydd eu hangen arnoch. Bydd hyn yn cael ei egluro i chi.

Dylai'r Awdurdod Lleol ariannu holl gostau rhesymol y Taliad Uniongyrchol. Fodd bynnag, rhaid i'r sawl sy'n derbyn Taliad Uniongyrchol wybod, os na fyddant yn dilyn cyngor eu Hyswirwyr Atebolrwydd neu wasanaeth cymorth Taliadau Uniongyrchol, ac am ba reswm bynnag, byddant yn cael eu dwyn gerbron Tribiwnlys Diwydiannol gan un aelod o'u staff neu fwy, mae'n bosib na fydd yr Awdurdod Lleol yn ariannu'r costau.

Efallai y byddwch yn penderfynu prynu gwasanaeth drutach na'r swm a gyfrifwyd ar gyfer y Taliad Uniongyrchol. Rhaid i chi dalu'r costau ychwanegol, i 'ychwanegu' at y cyfrif Taliad Uniongyrchol neu dalu'r costau ychwanegol ar wahân i'r darparwr. Bydd hyn yn cael ei egluro i chi gan y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol.

**A yw derbyn Taliad Uniongyrchol yn effeithio ar fy mudd-daliadau?**

Nid yw derbyn Taliad Uniongyrchol yn effeithio ar fudd-daliadau'r wladwriaeth yr ydych yn eu derbyn, ac nid yw'n cael ei ystyried yn incwm trethadwy.

**Sut byddai'r Taliadau Uniongyrchol yn cael eu talu i mi?**

Mae'r swm yn cael ei dalu i gyfrif banc y cytunwyd arno, bob pedair wythnos.

Mae ambell wahaniaeth, er enghraifft, os ydych yn derbyn taliad un tro, neu os cytunir ar swm blynyddol a'i dalu unwaith y flwyddyn, neu os oes angen prynu offer.

Ni allwch ddefnyddio'r arian i godi arian parod ac efallai y bydd cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei brynu. Ni ellir defnyddio taliadau ar gyfer unrhyw beth nad yw'n cael ei nodi a'i gytuno yn eich cynllun gofal a chymorth ac nid ar gyfer pethau fel gamblo a gweithgareddau anghyfreithlon.

Mae Taliadau Uniongyrchol yr un fath â gwasanaethau eraill a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol yn destun adolygiad. Gall cyllid Taliad Uniongyrchol gynyddu, gostwng neu ddod i ben.

Byddwch bob amser yn cael gwybod ac yn cael yr amser priodol i addasu eich Taliad Uniongyrchol. Gellir darparu cymorth a chefnogaeth, a rhaid i chi fod yn ymwybodol os bydd unrhyw newid yn effeithio ar gyflogaeth unrhyw staff rydych yn eu cyflogi, rhaid i chi ofyn am gyngor priodol.

## Cysylltiadau Defnyddiol

Bydd gan bob Awdurdod Lleol dimau Taliadau Uniongyrchol profiadol sydd yno i'ch cefnogi os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen gwybodaeth arnoch. Byddant yn ymdrechu i roi cymaint o help a sicrwydd ag sydd ei angen arnoch, hyd nes y byddwch yn teimlo'n hyderus i reoli'r trefniadau eich hun. Ond cofiwch, os oes angen cymorth neu gyngor arnoch bob hyn a hyn, mae'r tîm bob amser o fewn cyrraedd ar y ffôn neu drwy e-bost.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i chi am gyflwyniad i Daliadau Uniongyrchol. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol lleol.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayments@blaenau-gwent.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayadvisors@caerphilly.gov.uk **f.** 01495 235522

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy**
**Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** mccdirectpaymentteam@monmouthshire.gov.uk

**Cyngor Dinas Casnewydd**
**Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol**
**e.** direct.payments@newport.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Tîm Byw'n Annibynnol (Taliadau Uniongyrchol)**
**e.** independentlivingteam@torfaen.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD
Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council
monmouthshire sir fynwy
TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI